

Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau

Rydych yn gyfrifol am y presgripsiynau y byddwch yn eu llofnodi. Dim ond pan fydd gennych chi wybodaeth ddiogel o iechyd eich claf y dylech chi roi presgripsiwn am feddyginiaeth. Ac mae'n rhaid i chi deimlo'n fodlon bod y feddyginiaeth yn bodloni angen eich claf.

Bydd dilyn yr arweiniad hwn yn helpu i sicrhau eich bod yn presgripsiynu mewn ffordd ddiogel. Mae'n eich atgoffa bod yn rhaid i chi, lle bo modd, osgoi presgripsiynu ar gyfer eich hun neu ar gyfer y rhai sy'n agos atoch.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys yr hyn y bydd angen i chi ei ystyried wrth roi presgripsiwn am feddyginiaethau didrwydded, presgripsiwn rheolaidd a phan fyddwch yn rhannu cyfrifoldeb dros eich claf gyda chydweithiwr. Yn ogystal, mae'n rhoi cyngor pwysig ynghylch sut i weithio'n ddiogel pan nad chi yw'r un sy'n rhoi presgripsiwn i'r claf fel arfer, neu pan fyddwch yn darparu gofal i gleifion o bell, gan gynnwys y rhai sydd mewn gwlad dramor.

Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol yn yr un modd i'r holl weithgarwch rhoi presgripsiwn, ym mha bynnag leoliad y byddwch yn cael cyswllt gyda chlaf, gan gynnwys ymgynghoriadau o bell. Os na fyddwch yn

gallu bodloni'r safonau, efallai y bydd yn briodol yn cynnig modd amgen ar gyfer yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau gofal diogel sy'n bodloni ein safonau.

Daeth yr arweiniad hwn i rym ar 5 Ebrill 2021.

Lawrlwytho'r arweiniad

Gallwch lawrlwytho fersiwn Cymraeg neu fersiwn Saesneg o'r arweiniad hwn.

- [Prescribing and managing medicines and devices \(English\)](#)
- [Presgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau \(Cymraeg\)](#)

Am yr arweiniad hwn

- 1 Yn 'Arfer meddygol da' (2013)¹ rydym yn dweud:
 - 12 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gyfraith, ein harweiniad a'r rheoliadau eraill sy'n berthnasol i'ch gwaith, a chydymffurfio â nhw.
 - 14 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau'ch cymhwysedd.
 - 16 Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:
 - a ragnodi cyffuriau neu driniaeth, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy, dim ond pan fydd gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a phan fyddwch yn fodlon bod y cyffuriau neu'r driniaeth yn diwallu anghenion y claf
 - b darparu triniaethau effeithiol wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael
 - c sicrhau bod y gofal neu'r driniaeth yr ydych yn ei ddarparu ar gyfer pob claf yn cyd-fynd ag unrhyw driniaethau eraill y mae'r claf yn eu cael, gan gynnwys, pan fo modd, meddyginiaethau dros y cownter y byddant yn eu rhagnodi i'w hunain.
- 18 Rhaid i chi wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael i chi.
- 19 Rhaid i ddogfennau y byddwch yn eu paratoi, gan gynnwys cofnodion clinigol, er mwyn cofnodi'ch gwaith mewn ffordd ffurfiol, fod yn eglur, yn fanwl ac yn ddarllenadwy. Dylech lunio cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.
- 21 Dylai cofnodion clinigol gynnwys:
 - a canfyddiadau clinigol perthnasol
 - b unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau y cytunwyd arnynt, ynghyd â phwy sy'n gwneud y penderfyniadau ac sy'n cytuno ar y camau gweithredu
 - c y wybodaeth a roddwyd i gleifion
 - d unrhyw gyffuriau a ragnodwyd neu archwiliad neu driniaeth arall
 - e pwy sy'n gwneud y cofnod a phryd.

- 2 Mae'r arweiniad hwn yn cynnig cyngor manylach am sut i gydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae'r arweiniad yn berthnasol i bob gweithgarwch presgripsiynu ym mha bynnag le y bydd eich cyswllt yn digwydd, gan gynnwys ymgynghoriadau o bell.
- 3 Rydych yn gyfrifol am y presgripsiynau y byddwch yn eu llofnodi. Rydych yn atebol hefyd dros eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd pan fyddwch yn cyflenwi neu'n rhoi meddyginiaethau a dyfeisiau, a phan fyddwch yn awdurdodi neu'n rhoi cyfarwyddyd i eraill wneud hynny.
- 4 Defnyddir y gair 'presgripsiynu' er mwyn disgrifio nifer o weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys:
 - a cyflenwi meddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig
 - b presgripsiynu meddyginiaethau, dyfeisiau, gorchuddion a gweithgareddau, megis ymarfer corff
 - c cynghori cleifion ynghylch y cam o brynu meddyginiaethau dros y cownter a meddyginiaethau eraill.

- 5 Yn ogystal, gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw wybodaeth ysgrifenedig (presgripsiynau gwybodaeth) neu gyngor y byddwch yn ei roi i gleifion. Er bod rhywfaint o'r arweiniad hwn yn arbennig o berthnasol i feddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig, dylech ei ddilyn mewn perthynas â'r gweithgareddau eraill yr ydych yn eu cyflawni, i'r graddau ag y bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.
- 6 Mae presgripsiynu yn digwydd mewn amrediad o gyd-destunau, gan gynnwys wyneb yn wyneb ac o bell, gan ddefnyddio'r ffôn, cyfleuster arlein a dolen fideo neu blatfformau technolegol eraill. Os na allwch fodloni'r safonau a nodir yn yr arweiniad hwn trwy gyfrwng y dull ymgynghori yr ydych yn ei ddefnyddio, dylech gynnig dewis amgen os oes modd, neu gyfeirio at wasanaethau eraill. Os ydych o'r farn bod systemau, polisïau neu weithdrefnau yn rhoi cleifion mewn perygl o ddioddef niwed, neu y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl o ddioddef niwed, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn 'Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch'.²
- 7 Rhaid i chi fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau'ch penderfyniadau a'ch gweithredoedd wrth bresgripsiynu, gweinyddu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein harweiniad, sy'n peryglu diogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon, fydd yn peryglu'ch cofrestrriad.

Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf a phresgripsiynu mewn ffordd ddiogel

- 8 Fel yr amlinellir yn 'Arfer meddygol da', rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau'ch cymhwysra ac mae'n rhaid i chi ddiweddarau eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Rhaid i chi gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch arfer ym maes:
 - ffarmacoleg a therapiwteg
 - presgripsiynu a rheoli meddyginiaethau
 - unrhyw dechnoleg neu brosesau yr ydych yn eu defnyddio er mwyn presgripsiynu, er enghraifft trwy ymgynghori o bell.
- 9 Dylech ddefnyddio systemau electronig a systemau eraill sy'n gallu gwella diogelwch eich gwaith presgripsiynu, er enghraifft, trwy amlygu cysylltiadau ac alergeddau a thrwy sicrhau cysondeb a chydweiddoldeb meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu, eu cyflenwi a'u rhoi.
- 10 Mae [Diweddariad ynghylch Diogelwch Cyffuriau a System Rhybuddio Ganolog](#) yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn darparu cyngor a gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r defnydd mwy diogel o feddyginiaethau y maent yn addas i'ch arfer ac er mwyn eich hysbysu o wybodaeth ynghylch diogelwch y meddyginiaethau y byddwch yn eu presgripsiynu.
- 11 Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn dwyn ynghyd tystiolaeth ynghylch y defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o feddyginiaethau gan amrediad o sefydliadau yn [Chwilio Tystiolaeth](#). Mae'n cyhoeddi amrediad o [gynhyrchion](#) hefyd er mwyn eich helpu i wella diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol eich gweithgarwch presgripsiynu, ynghyd â pha mor gost-effeithiol ydyw. Mae hyn yn cynnwys [Cymhorthion Penderfynu i Gleifion](#). Mae'r [Compendiwm Meddyginiaethau](#) electronig yn cynnwys Crynodebau o Nodweddion Cynhyrchion a Thafleuni Gwybodaeth i Gleifion (TGG).

- 12 Os nad ydych yn siŵr ynghylch cysylltiadau neu agweddau eraill ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau, dylech geisio cyngor cydweithwyr profiadol, gan gynnwys fferyllwyr, cyngorwyr presgripsiynu a ffarmacolegwyr clinigol.
- 13 Rhaid i chi fod yn gyfarwydd gyda'r arweiniad yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) a Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i Blant (BNFC), sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol er mwyn eich helpu i bresgripsiynu, monitro, cyflenwi a rhoi meddyginiaethau.
- 14 Dylech ddilyn y cyngor yn BNF ynghylch ysgrifennu presgripsiynau a sicrhau bod eich presgripsiynau a'ch gorchmynion yn eglur, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol. Dylech sicrhau eich bod yn nodi eich enw mewn ffordd eglur hefyd.³ Yn ogystal, dylech ystyried cynnwys arwyddion clinigol⁴ yn eich presgripsiynau.
- 15 Dylech ystyried y canllawiau clinigol a gyhoeddir gan:
 - a [Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal](#) (Lloegr)
 - b [Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd](#) (Gogledd Iwerddon)
 - c Health Improvement Scotland (gan gynnwys [Consortiwm Meddyginiaethau yr Alban](#) a [Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban](#)) (Yr Alban)
 - d [Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan](#) (Cymru)
 - e colegau meddygol brenhinol a ffynonellau awdurdodol eraill canllawiau clinigol ar gyfer meysydd arbenigol penodol.
- 16 Dylech fod yn ofalus ynghylch defnyddio dyfeisiau meddygol at ddibenion nas bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio ar eu cyfer.
- 17 Dylech sicrhau bod unrhyw un y byddwch yn dirprwyo'r cyfrifoldeb iddynt dros roi meddyginiaethau yn gymwys i gyflawni'r hyn y

byddwch yn gofyn iddynt ei gyflawni.⁵ Mae modd cael cyngor ynghylch hyfforddiant ar gyfer staff cymorth rhoi gan y [Cyngor Fferyllol Cyffredinol](#) a [Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon](#) (PSNI).

- 18 Pan fo hynny'n berthnasol, os nad ydych yn dymuno presgripsiynu oherwydd gwrthwynebiad cydwybodol, dylech ddilyn ein harweiniad esboniadol ynghylch '[Credoau personol ac arfer meddygol](#)'.
- 19 Ni ddylech gynllwynio i hysbysebu meddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig neu feddyginiaethau didrwydded i'r cyhoedd trwy bresgripsiynu trwy gyfrwng gwefannau sy'n torri amodau rheoliadau hysbysebu.⁶

Penderfynu a yw hi'n ddiogel presgripsiynu

- 20 Dim ond os oes gennych chi wybodaeth ddigonol o iechyd y claf ac rydych chi'n fodlon bod y meddyginiaethau yn bodloni anghenion y claf y dylech chi bresgripsiynu meddyginiaethau. Rhaid i chi ystyried:
 - a addasrwydd y dull ymgynghori yr ydych yn ei ddefnyddio, er enghraifft wyneb yn wyneb neu o bell, gan ystyried unrhyw angen am archwiliad corfforol neu asesiadau eraill (gweler paragraffau 21 i 26)
 - b os oes gennych chi wybodaeth ddigonol i bresgripsiynu mewn ffordd ddiogel, er enghraifft os ydych chi'n gallu troi at gofnodion meddygol y claf ac yn gallu cadarnhau gwybodaeth berthnasol (gweler paragraffau 27 i 33)
 - c os ydych chi'n gallu cael deialog ddwy ffordd, gan ffurfio asesiad digonol o anghenion y claf a sicrhau caniatâd (gweler paragraffau 34 i 38)
 - d a ydych chi'n gallu rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn dilyn cyfnod o ofal (gweler paragraffau 53 i 58).

A yw'r dull ymgynghori yn bodloni anghenion unigol y claf ac a yw'n cynorthwyo presgripsiynu diogel?

- 21** Efallai bod yn well gan gleifion fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd wyneb yn wyneb neu trwy gyfrwng ymgynghoriadau o bell dros y ffôn, dolen fideo neu ar-lein, gan ddibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.⁷ Pan fydd gwahanol ddewisiadau ar gael, a phan fo hynny o fewn eich pŵer, dylech gytuno gyda'r claf pa ddull ymgynghori sydd fwyaf addas iddyn nhw.
- 22** Mae amgylchiadau pan fydd ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn fwy priodol nag ymgynghoriad o bell efallai, yn cynnwys:
- pan na fyddwch yn siŵr ynghylch galluedd claf i wneud penderfyniad am driniaeth (gweler paragraffau 41 i 44)
 - pan fydd angen i chi gynnal archwiliad corfforol o'r claf
 - pan nad chi yw meddyg teulu neu feddyg arferol y claf, ac nid ydynt wedi rhoi caniatâd i chi rannu eu gwybodaeth gyda'r unigolyn arferol sy'n presgripsiynu ar eu cyfer; mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd angen rhoi sylw dilynol i'r driniaeth neu ei monitro, neu os byddwch yn presgripsiynu meddyginiaethau lle y mae gofyn cynnal rhagofalon ychwanegol (gweler paragraffau 59 i 66)
 - pan fyddwch yn pryderu nad oes gan glaf le diogel a chyfrinachol i fanteisio ar ofal iechyd o bell, er enghraifft oherwydd cam-drin domestig
 - pan fyddwch yn pryderu nad yw claf yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd efallai oherwydd eu bod yn dan bwysau gan eraill (gweler paragraffau 69 i 75 '[Gwneud penderfyniadau a chaniatâd](#)').

- 23** Os nad chi yw'r un sy'n presgripsiynu ar gyfer y claf fel arfer, megis meddyg teulu, dylech:
- a ddweud eich enw, eich rôl ac os ydych ar-lein, eich rhif cofrestru CMC wrth y claf
 - b esbonio sut y bydd yr ymgynghoriad yn gweithio a'r hyn y dylent ei wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau
 - c dilyn y cyngor ym mharagraffau 27 i 33 a 53 i 58 ynghylch rhannu gwybodaeth.
- 24** Cyn i chi bresgripsiynu, rhaid i chi deimlo'n fodlon eich bod yn gallu cynnal asesiad digonol, cael deialog a sicrhau caniatâd y claf trwy gyfrwng y dull ymgynghori yr ydych yn ei ddefnyddio (gweler paragraffau 34 i 44).
- 25** Yn ogystal, rhaid i chi ystyried ac ymateb i anghenion cyfathrebu y claf, gan wneud addasiadau rhesymol i'ch arfer, yn ôl yr angen, er mwyn iddynt allu cael gofal sy'n bodloni eu hanghenion.⁸
- 26** Rhaid i chi gynnal archwiliad corfforol o gleifion cyn presgripsiynu meddyginiaethau cosmetig anllawfeddygol megis Botox, Dysport, Vistabel neu feddyginiaethau cosmetig eraill i'w chwistrellu. Felly, ni ddylech bresgripsiynu'r meddyginiaethau hyn o bell.

A oes gennych chi ddigon o wybodaeth am y claf i bresgripsiynu triniaeth sy'n diwallu eu hanghenion?

- 27** Dim ond os yw hi'n ddiogel i chi wneud hynny y dylech chi bresgripsiynu.
- a Nid yw hi'n ddiogel i chi bresgripsiynu os nad oes gennych chi wybodaeth ddigonol am iechyd y claf neu os yw'r dull ymgynghori yn anaddas er mwyn diwallu eu hanghenion.
 - b Efallai y bydd hi'n anniogel os na rennir gwybodaeth berthnasol gyda darparwyr gofal iechyd eraill sy'n ymwneud gyda gofal y claf – er enghraifft oherwydd bod y claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd.

28 Cyn presgripsiynu, rhaid i chi ystyried a yw'r wybodaeth sydd gennych chi yn ddigon dibynadwy a digonol i'ch galluogi i bresgripsiynu yn ddiogel. Er enghraifft:

- a** a ydych chi'n gallu troi at gofnodion meddygol y claf neu wybodaeth ddibynadwy arall am eu hiechyd a thriniaethau eraill y maent yn eu cael
- b** a ydych chi'n gallu cadarnhau gwybodaeth bwysig arall trwy archwilio neu brofi
- c** a fyddai'r claf mewn perygl o farw neu ddiodef niwed difrifol os ydynt yn cael meddyginiaeth gan ffynonellau eraill hefyd.

29 Os nad chi yw'r un sy'n rhoi presgripsiwn i'r claf fel arfer, dylech ofyn am ganiatâd y claf i:

- a** gysylltu â'u meddyg teulu neu feddygon eraill sy'n eu trin os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi neu gadarnhad o'r wybodaeth sydd gennych chi cyn presgripsiynu
- b** rhannu gwybodaeth gyda'u meddyg teulu ar ôl cwblhau'r cyfnod gofal.⁹

30 Os bydd y claf yn gwrthwynebu i'r cam o rannu gwybodaeth gyda chi, neu nid oes ganddynt rywun sy'n presgripsiynu ar eu cyfer fel arfer, rhaid eich bod yn gallu cyfiawnhau penderfyniad i roi presgripsiwn heb y wybodaeth honno.

31 Os bydd y claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd i chi rannu gwybodaeth gyda'u meddyg teulu, neu os nad oes ganddynt feddyg teulu, dylech esbonio'r risgiau o beidio rhannu'r wybodaeth hon i'r claf. Dylid cofnodi hyn yn eu cofnodion meddygol.

32 Os allai methu rhannu gwybodaeth beri risg i ddiogelwch claf, dylech esbonio i'r claf na allwch bresgripsiynu. Dylech amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a'u cyfeirio at wasanaethau amgen priodol. Dylech gofnodi eich rhesymau dros unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd yn glir.

33 Wrth drin cleifion agored i niwed mewn unrhyw leoliad, megis cartrefi plant, cartrefi gofal neu garchardai, dylech gymryd gofal arbennig eich bod yn dilyn protocolau cenedlaethol perthnasol. Dylech gynorthwyo gweithgarwch priodol ac effeithiol i rannu gwybodaeth rhwng y lleoliad a'r gymuned er mwyn sicrhau parhad o ran y gofal.

A ydych chi'n gallu sefydlu deialog a sicrhau caniatâd?

Sefydlu deialog

34 Rhaid i chi sefydlu deialog gyda'ch claf er mwyn eu helpu i ystyried gwybodaeth am eu dewisiadau ac er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylent gael gofal neu driniaeth neu beidio. Dylai deialog da roi'r cyfle i chi a'ch claf i ofyn cwestiynau er mwyn cael y wybodaeth y mae ei hangen ar y ddau ohonoch.

35 Gyda'r claf, dylech asesu eu cyflwr cyn penderfynu presgripsiynu meddyginiaeth. Rhaid bod gennych chi neu mae'n rhaid eich bod wedi cymryd hanes digonol, sy'n cynnwys:

- a** unrhyw adweithiau niweidiol blaenorol i feddyginiaethau
- b** defnydd o feddyginiaethau eraill ar hyn o bryd ac yn ddiweddar, gan gynnwys meddyginiaethau nad oes angen presgripsiwn er mwyn eu cael a meddyginiaethau llysiuol, cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaethau a brynir ar-lein neu wyneb yn wyneb
- c** cyflyrau meddygol eraill.

36 Dylech annog eich claf i fod yn agored gyda chi ynghylch eu defnydd o feddyginiaethau amgen, sylweddau anghyfreithlon a meddyginiaethau a sicrhawyd ar-lein neu wyneb yn wyneb, yn ogystal â chael gwybod a ydynt wedi cymryd meddyginiaethau a bresgripsiynwyd yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd yn y gorffennol.

- 37** Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch er mwyn eich helpu i benderfynu pa ddewisiadau fyddai'n diwallu anghenion y claf, rhaid i chi ofyn amdani cyn argymell dewis neu symud ymlaen gyda thriniaeth.
- 38** Os na fydd modd egluro neu ofyn am ragor o wybodaeth gan y claf yn yr amgylchedd yr ydych yn gweithio ynddo, dylech ystyried a yw hi'n ddiogel presgripsiynu, gan fynegi pryderon pan fo hynny'n briodol. Er enghraifft, efallai y bydd hi'n briodol mynegi pryderon os yw'r system yr ydych yn gweithio ynddi yn golygu presgripsiynu o bell ar sail holiadur ac ni cheir mecanwaith er mwyn cael deialog neu gyfathrebu ddwy ffordd gyda chleifion.

Asesu anghenion y claf

- 39** Dylech nodi achos tebygol cyflwr y claf a pha driniaethau y maent yn debygol o ddiwallu eu hanghenion.
- 40** Dylech ddod i gytundeb gyda'r claf ynghylch y driniaeth arfaethedig,¹⁰ gan esbonio:
- a** y manteision, y risgiau a'r effaith debygol, gan gynnwys sgîl-ffeithiau difrifol a chyffredin
 - b** yr hyn i'w wneud os bydd sgîl-ffaith yn digwydd neu os bydd y cyflwr yn dychwelyd
 - c** sut a phryd y dylid cymryd y feddyginiaeth a sut i addasu'r dos os bydd angen gwneud hynny
 - d** sut i ddefnyddio dyfais feddygol
 - e** pa mor hir y mae'r driniaeth yn debygol o bara
 - f** unrhyw drefniadau perthnasol ar gyfer monitro, ymateb dilynol ac adolygu, gan gynnwys ymgynghori pellach, profion gwaed ac archwiliadau eraill, prosesau er mwyn addasu'r math o feddyginiaeth neu'r dos, ac ar gyfer rhoi presgripsiynau rheolaidd.

Asesu galluedd claf

- 41** Rhaid i chi gychwyn trwy dybio bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae asesu galluedd yn fedr clinigol craidd ac nid yw'n gofyn am fewnbwn arbenigol o reidrwydd. Dylech fod yn gallu ffurfio casgliadau rhesymol am alluedd eich claf yn ystod eich deialog gyda nhw.
- 42** Os nad ydych yn siŵr a yw claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad, dylech asesu eu galluedd gan ddefnyddio'r prawf dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n harweiniad ynghylch '[Gwneud penderfyniadau a chaniatâd](#)' yn rhoi cyngor manwl ynghylch asesu galluedd a gwneud penderfyniadau pan ei bod yn hysbys bod claf heb alluedd, ym mharagraffau 76 i 91.
- 43** Gellir presgripsiynu meddyginiaethau heb sicrhau caniatâd os bydd hyn yn debygol o gynnig budd cyffredinol i oedolion heb alluedd, neu os bydd hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth iechyd meddwl.
- 44** Ar gyfer cleifion dan 18 oed, dylid darllen yr arweiniad hwn gyda '[0-18 oed: arweiniad i bob meddyg](#)'.¹¹

Rhoi gwybodaeth i gleifion

- 45** Bydd swm y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i bob claf yn amrywio yn unol â natur eu cyflwr, y risgiau a'r sgîl-ffeithiau posibl ac anghenion a dymuniadau'r claf. Dylech sicrhau bod y claf wedi deall y wybodaeth, a'u hannog i ofyn cwestiynau er mwyn egluro unrhyw bryderon neu ansicrwydd. Dylech ystyried manteision gwybodaeth ysgrifenedig, gwybodaeth mewn ieithoedd eraill a chymhorthion eraill ar gyfer cleifion sydd ag anabledau, er mwyn eu helpu i ddeall ac ystyried gwybodaeth yn eu hamser eu hunain ac i gadw gafael ar wybodaeth mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion.

- 46** Weithiau, oherwydd bod amser yn brin, mae'n anodd rhoi cymaint o wybodaeth i gleifion ag y byddech chi neu nhw yn ei hoffi. Er mwyn helpu gyda hyn, dylech ystyried y rôl y gallai aelodau eraill y tîm gofal iechyd, gan gynnwys fferyllwyr, ei gyflawni. Gall fferyllwyr gynnal adolygiadau o feddyginiaethau, esbonio sut i gymryd meddyginiaethau a chynnig cyngor ynghylch cysylltiadau a sgîl-ffeithiau. Dylech weithio gyda fferyllwyr yn eich sefydliad a/neu'r ardal leol er mwyn osgoi'r risgiau o orlethu neu ddrysu cleifion gyda gormod o wybodaeth neu wybodaeth anghyson.
- 47** Dylech gyfeirio cleifion at y wybodaeth mewn taflenni gwybodaeth i gleifion (TGG) a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill.¹² Mae TGG yn atodion defnyddiol i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion am eu meddyginiaethau, ond nid ydynt yn disodli'r wybodaeth honno.
- 48** Gyda chaniatâd y claf, dylech ddarparu gwybodaeth i ofalwyr cleifion am y meddyginiaethau yr ydych yn eu presgripsiynu. Os bydd y claf heb alluedd i roi eu caniatâd, dylech rannu'r wybodaeth hon gyda gofalwyr pan fyddai hyn yn cynnig budd cyffredinol i'r claf yn eich barn chi.¹³
- 49** Ni fydd rhai cleifion yn cymryd meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu ar eu cyfer, neu ni fyddant yn dilyn y cyfarwyddiadau ynghylch y dos y dylid ei gymryd neu'r amser y dylid cymryd y meddyginiaethau. Dylech geisio deall y rhesymau dros hyn, gan roi sylw iddynt trwy gynnig gwybodaeth ddefnyddiol a chysur. Dylech geisio cytuno gyda'r claf ar gwrs triniaeth priodol y mae modd iddynt gydymffurfio ag ef ac y maent yn fodlon cydymffurfio ag ef.¹⁴

Sicrhau caniatâd claf

- 50** Dylech weithredu mewn ffordd gymesur wrth sicrhau caniatâd claf. Ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau a wneir ynghylch presgripsiynu, gallwch ddibynnu ar ganiatâd claf ar lafar, ar yr amod eich bod yn fodlon eu bod wedi cael y cyfle i ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol a'u bod wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda hyn. Weithiau, bydd gofyn cael llofnod claf ar ffurflen, er enghraifft er mwyn cydymffurfio gyda rhybudd diogelwch cyffur gan MHRA ynghylch meddyginiaeth y mae'n rhoi sgîl-ffeithiau difrifol.

Delio gyda cheisiadau claf am feddyginiaeth na fydd yn cynnig budd iddynt yn eich barn chi

- 51** Weithiau, bydd cleifion yn gofyn am driniaeth neu ofal nad yw er budd clinigol iddynt yn eich barn chi. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylech ystyried y rhesymau dros eu cais, eu dealltwriaeth o'r hyn y byddai yn ei olygu a'u disgwyliadau am y canlyniad tebygol. Bydd y drafodaeth hon yn eich helpu i ystyried y ffactorau sy'n arwyddocaol i'r claf, gan asesu a allai darparu'r driniaeth neu'r gofal ddiwallu anghenion y claf.
- 52** Ar ôl cael trafodaeth, os byddwch o'r farn o hyd na fyddai'r driniaeth neu'r gofal yn bodloni anghenion y claf, ni ddylech ei darparu. Dylech esbonio'ch rhesymau i'r claf, gan archwilio dewisiadau eraill y gallent fod ar gael, gan gynnwys eu hawl i geisio ail farn.

Rhannu gwybodaeth ar ôl darparu gofal

- 53** Rhaid i chi gyfrannu at drosglwyddiad diogel cleifion rhwng darparwyr gofal iechyd a rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi rannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr sy'n ymwneud gyda gofal eich claf o fewn y tîm a thu allan y tîm. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwch yn trosglwyddo gofal pan fyddwch yn mynd oddi ar ddyletswydd, pan fyddwch yn dirprwyo

gofal, neu pan fyddwch yn cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill. Dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am ddefnydd presennol y claf o feddyginiaethau a'u defnydd o feddyginiaethau yn ddiweddar, yn ogystal ag unrhyw gyflyrau eraill, alergeddau ac adweithiau niweidiol blaenorol i feddyginiaethau y maent wedi'u cael.

- 54** Er mwyn sicrhau gofal diogel, mae'n hanfodol bod gwybodaeth ynghylch meddyginiaethau yn mynd gyda'r claf, neu'n eu dilyn yn gyflym, er enghraifft pan fyddant yn mynd i'r ysbyty ar frys, pan fyddant yn trosglwyddo rhwng lleoliadau gofal.¹⁵
- 55** Os mai chi yw meddyg teulu y claf, dylech sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau'r claf, er enghraifft yn dilyn triniaeth mewn ysbyty, yn cael eu hadolygu a'u cynnwys yng nghofnod y claf. Bydd hyn yn helpu i osgoi cleifion yn cael presgripsiynau rheolaidd amhriodol a bydd yn lleihau'r risg o gael rhyngweithio niweidiol.¹⁶
- 56** Os nad chi yw meddyg teulu y claf, pan gaiff cyfnod gofal ei gwblhau, rhaid i chi ddweud wrth feddyg teulu y claf am:
- a** newidiadau i feddyginiaethau'r claf, ynghyd â rhesymau dros hynny, gan gynnwys os yw meddyginiaethau presennol wedi cael eu newid neu eu stopio, ac os dechreuir rhoi meddyginiaethau newydd
 - b** hyd y cyfnod y bwriedir rhoi'r driniaeth
 - c** gofynion monitro, gan gynnwys pwy fydd yn cyflawni hyn
 - d** unrhyw alergeddau newydd neu adweithiau niweidiol a nodwyd.
- 57** Os bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd i'r cam o rannu eu gwybodaeth, neu os na fydd gan y claf feddyg teulu, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 31.
- 58** Mewn rhai amgylchiadau, megis darparu gwasanaethau iechyd rhywiol, gallai pryderon ynghylch preifatrwydd fod yn drech na'r angen i rannu gwybodaeth.

Cyffuriau a reolir a meddyginiaethau eraill lle y mae angen cael rhagofalon ychwanegol

- 59** Efallai y bydd rhai categorïau o feddyginiaethau yn peri risgiau penodol o achosi niwed difrifol neu fe allent fod yn gysylltiedig gyda gordefnydd, camddefnydd neu gaethiwed. Wrth bresgripsiynu, dylech ddilyn canllawiau clinigol perthnasol, megis diweddariadau am ddiogelwch cyffuriau ynghylch risg dibyniaeth a chaethiwed sy'n gysylltiedig gydag opioidau.¹⁷
- 60** Os nad ydych yn gallu troi at wybodaeth berthnasol o gofnodion meddygol y claf, ni ddylech bresgripsiynu cyffuriau a reolir neu feddyginiaethau y ceir tuedd i'w camddefnyddio neu eu gordefnyddio, neu pan geir perygl y bydd rhywun yn mynd yn gaeth iddynt, ac mae monitro yn bwysig.¹⁸ Eithriadau i hyn yw pan na fydd unrhyw unigolyn arall sy'n gallu troi at y wybodaeth honno ar gael i bresgripsiynu heb unrhyw oedi a fyddai'n anniogel, ac mae angen gwneud hyn er mwyn:
- a** osgoi iechyd rhywun rhag gwaethygu mewn ffordd ddifrifol neu er mwyn osgoi niwed difrifol
 - b** sicrhau parhad o ran y driniaeth pan fydd claf yn methu troi at feddyginiaeth am gyfnod cyfyngedig yn annisgwyl.
- 61** Mewn amgylchiadau fel hyn, dylech ddarparu swm a dos cyfyngedig – un sy'n ddigonol er mwyn sicrhau bod y claf yn cael gofal addas a) nes byddant yn gallu gweld gweithiwr iechyd proffesiynol priodol sy'n gallu troi at y wybodaeth berthnasol o'u cofnodion meddygol neu b) rydych yn gallu cadarnhau'r wybodaeth honno eich hun. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylech ystyried y posibilrwydd y gallai'r claf fod yn sicrhau meddyginiaethau gan ffynonellau eraill. Dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 56–58 hefyd.
- 62** Os ydych yn presgripsiynu o bell, rhaid i chi deimlo'n fodlon hefyd bod rhagofalon priodol mewn grym i gynorthwyo presgripsiynu diogel.

Mae rhagofalon perthnasol yn cynnwys:

- a gwiriadau adnabod cadarn er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu presgripsiynu i'r unigolyn cywir
 - b os nad chi yw'r un sy'n presgripsiynu fel arfer, dylech sicrhau bod y claf wedi rhoi eu caniatâd i rywun gysylltu â'r sawl sy'n presgripsiynu ar eu cyfer fel arfer ynghylch eu presgripsiwn (gweler paragraff 27)
 - c sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am y presgripsiwn yn cael ei rhannu gyda meddyg teulu y claf neu'n cael ei hychwanegu i'r cofnod gofal sylfaenol (gweler paragraffau 56 i 57).
- 63** Dylid hysbysu'r claf o enwau, rolau a manylion cswllt pobl allweddol a fydd yn ymwneud â'u gofal, yn ogystal â chynghor ynghylch pwy y gallant gysylltu â nhw os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn presgripsiynu o bell.
- 64** Ni ddylech bresgripsiynu cyffuriau a reolir i'ch hunan neu i rywun sy'n agos atoch, ac eithrio yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 60.
- 65** Ni ddylech bresgripsiynu meddyginiaethau er eich hwylustod eich hun neu er hwylustod gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol eraill (er enghraifft, presgripsiynu cyffuriau tawelu er hwylustod y rhai sy'n gofalu am gleifion sydd â dementia mewn cartrefi gofal pan na cheir cyfiawnhad clinigol dros wneud hynny.¹⁹
- 66** Ni chaiff fferyllfeydd gyflenwi rhai categorïau o feddyginiaethau os byddant yn cael eu presgripsiynu o bell, oni bai y gellir bodloni rhagofalon penodol.²⁰

Presgripsiynu ar eich cyfer chi neu'r rhai sy'n agos atoch

- 67** Pryd bynnag y bo modd, rhaid i chi osgoi presgripsiynu ar gyfer eich hun neu ar gyfer unrhyw un y mae gennych chi berthynas bersonol agos gyda nhw.

- 68** Os byddwch yn presgripsiynu unrhyw feddyginiaeth ar eich cyfer chi neu rywun sy'n agos atoch, rhaid i chi:
- a lunio cofnod clir ar y pryd neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny; dylai'r cofnod gynnwys manylion eich perthynas gyda'r claf, pan fo hynny'n berthnasol, a'r rheswm pam y bu angen i chi bresgripsiynu
 - b dilyn y cynghor ynghylch rhannu gwybodaeth a phresgripsiynu diogel ym mharagraffau 27 i 33 a 53 i 58.
- 69** Ni ddylech bresgripsiynu cyffuriau a reolir ar eich cyfer chi neu rywun arall sy'n agos atoch oni bai:
- a nad oes unrhyw unigolyn arall sy'n meddu ar yr hawl gyfreithiol i bresgripsiynu ar gael i asesu a phresgripsiynu yn ddi-oed
 - b bod angen rhoi triniaeth frys ar unwaith er mwyn osgoi niwed difrifol neu bod cyflwr iechyd rhywun yn gwaethygu mewn ffordd ddifrifol.

Presgripsiynu o bell i gleifion mewn cartref gofal neu nyrsio neu hosbis

- 70** Os ydych yn presgripsiynu o bell i glaf mewn cartref gofal neu nyrsio neu hosbis, dylech gyfathrebu gyda'r claf, neu os na fydd hynny'n ymarferol, gyda'r unigolyn sy'n gofalu amdanynt, er mwyn gwneud eich asesiad a darparu'r cynghor a'r wybodaeth angenrheidiol. Dylech sicrhau y deallir unrhyw gyfarwyddiadau, megis sut i roi'r cyffur neu fonitro cyflwr y claf. A dylech anfon cadarnhad ysgrifenedig atynt cyn gynted ag y bo modd.

Presgripsiynu o bell ar gyfer cleifion mewn gwlad dramor

- 71** Yn ychwanegol i'r arweiniad uchod, cyn presgripsiynu o bell i gleifion mewn gwlad dramor, dylech ystyried y canlynol hefyd:
- a sut y byddwch chi neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol yn monitro eu cyflwr

- b** gwahaniaethau o ran enw trwyddedig cynnyrch, arwyddion a'r dos a argymhellir
- c** a oes gennych chi drefniadau yswiriant neu indemniad digonol mewn grym er mwyn cynnwys eich gwaith ym mhob gwlad berthnasol
- d** a oes angen i chi fod wedi cofrestru gyda chyrrff rheoliadol lluosog, gan gynnwys yn y wlad lle'r ydych chi, yn y wlad lle y mae'r claf, ac yn y wlad lle y caiff y meddyginiaethau a bresgripsiynir eu rhoi.

- 72** Dylech ddilyn gofynion cyfreithiol y DU a gofynion cyfreithiol tramor hefyd, yn ogystal ag arweiniad perthnasol ynghylch mewnfario ac allfario ar gyfer dosbarthu diogel, gan gynnwys gan MHRA.
- 73** Os ydych yn ystyried gweithio i ddarparu gwasanaeth wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ffaith nad oes mecanweithiau lleol sefydledig yn bodoli efallai er mwyn darparu systemau rheoleiddio effeithiol, a gallai hyn effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Rhannu gofal

- 74** Dylid seilio penderfyniadau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am ofal neu driniaeth barhaus ar ôl rhoi'r diagnosis neu'r asesiad cychwynnol, ar sail budd penaf y claf, yn hytrach na'r hyn sy'n gyfleus neu gost y feddyginiaeth a'r gweithgarwch monitro ac ymateb dilynol cysylltiedig.
- 75** Mae rhannu gofal yn gofyn am gytundeb pob parti, gan gynnwys y claf. Mae'n hanfodol bod yr holl bartïon yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cydweithio.

Presgripsiynu yn unol ag argymhelliad cydweithiwr

- 76** Os byddwch yn presgripsiynu yn unol ag argymhelliad meddyg arall, nyrs neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol, rhaid i chi fodloni'ch

hun bod angen y presgripsiwn, ei fod yn briodol i'r claf a'i fod o fewn terfynau'ch cymhwystra.

- 77** Os byddwch yn dirprwyo'r broses o asesu addasrwydd claf i gael meddyginiaeth i rywun arall, rhaid i chi fod yn fodlon bod yr unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddynt yn meddu ar y cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn cynnal yr asesiad. Rhaid i chi roi digon o wybodaeth iddynt am y claf er mwyn cynnal yr asesiad. Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau eu bod yn dilyn ein harweiniad ynghylch 'Gwneud penderfyniadau a chaniatâd' ym mharagraffau 42 i 47.
- 78** Yn y ddau achos (paragraffau 76 – 77), byddwch yn gyfrifol am unrhyw bresgripsiwn y byddwch yn ei lofnodi.

Argymell meddyginiaethau i'w presgripsiynu gan gydweithiwr

- 79** Os byddwch yn argymell bod cydweithiwr, er enghraifft meddyg iau neu feddyg teulu, yn presgripsiynu meddyginiaeth benodol ar gyfer claf, rhaid i chi ystyried eu cymhwystra i wneud hynny. Rhaid i chi fodloni'ch hun eu bod yn meddu ar brofiad digonol (yn enwedig yn achos meddygon iau) a gwybodaeth am y claf a'r feddyginiaeth, er mwyn presgripsiynu. Dylech fod yn fodlon ateb eu cwestiynau a'u cynorthwyo fel arall wrth ofalu am y claf, yn ôl y gofyn.

Presgripsiynu wrth rannu gofal

- 80** Os ydych yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ofal claf gyda chydweithiwr, rhaid i chi fod yn gymwys i arfer eich cyfran chi o'r cyfrifoldeb clinigol. Dylech:
- a** sicrhau eich bod yn wybodus am y meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu ar gyfer y claf
 - b** meddu ar y gallu i adnabod sgîl-effeithiau difrifol a niweidiol y maent yn digwydd yn aml

- c sicrhau bod trefniadau monitro clinigol priodol mewn grym a bod y claf a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw yn eu deall
- d bod yn ymwybodol o'r canllawiau perthnasol diweddaraf ynghylch defnyddio meddyginiaethau ac ynghylch rheoli cyflwr y claf.

- 81** Wrth gynnig trefniant rhannu gofal, gall arbenigwyr gynnig cyngor i feddyg teulu y claf ynghylch pa feddyginiaeth i'w phresgripsiynu. Os byddwch yn argymhell meddyginiaeth newydd neu feddyginiaeth na chaiff ei phresgripsiynu yn aml, dylech nodi'r dos a'r ffordd o'i rhoi, a chytuno ar brotocol ar gyfer y driniaeth. Dylech gynnig esboniad am y defnydd o feddyginiaethau didrwydded ac unrhyw benderfyniad i wroddi ar ganllawiau awdurdodol neu driniaethau argymelledig. Yn ogystal, dylech ddarparu gwybodaeth ddigonol i'r meddyg teulu ac i'r claf er mwyn gallu rheoli cyflwr y claf mewn ffordd ddiogel.²¹
- 82** Os ydych yn teimlo'n ansicr ynghylch eich cymhwysra i fod yn gyfrifol am ofal parhaus y claf, dylech geisio cyngor neu wybodaeth bellach gan y clinigydd y rhennir y gofal dros y claf gyda nhw, neu gan gydweithiwr profiadol arall. Os na fyddwch yn fodlon o hyd, dylech esbonio hyn i'r clinigydd arall ac i'r claf, gan wneud trefniadau priodol ar gyfer eu gofal parhaus.

Mynegi pryderon

- 83** Mae camgymeriadau wrth bresgripsiynu a chamgymeriadau gweinyddol yn gyffredin²² ond fel arfer, caiff niwed ei osgoi wrth i gydweithwyr ymyrryd cyn y bydd modd i'r camgymeriadau effeithio ar gleifion.
- 84** Rhaid i chi ddiogelu cleifion rhag risgiau niwed yn deillio o gamgymeriadau a wneir gan gydweithwyr wrth bresgripsiynu a rhoi a chamgymeriadau eraill sy'n ymwneud â meddyginiaethau. Dylech gwestiynu unrhyw benderfyniad neu weithredu a allai fod yn

anniogel yn eich barn chi.²³ Yn ogystal, dylech ymateb mewn ffordd adeiladol i bryderon a fynegir gan gydweithwyr, cleifion a gofalwyr ynghylch eich arfer chi.

- 85** Dylech sicrhau mai diogelwch cleifion yw eich blaenoriaeth bennaf, gan fynegi pryderon os na fydd gan y gwasanaeth neu'r system yr ydych yn gweithio ynddo/ynddi ragofalon digonol, sy'n berthnasol i natur a dull y gweithgarwch ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau adnabod a dilysu priodol.²⁴ Ni ddylech bresgripsiynu oni bai ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny.

Adrodd am adweithiau niweidiol i gyffur, digwyddiadau sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â diogelwch cleifion

- 86** Gall gweithgarwch arferol a chynnar er mwyn adrodd am adweithiau niweidiol, digwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, y maent yn ymwneud gyda meddyginiaethau a dyfeisiau, sicrhau bod materion sy'n ymwneud â pherfformiad a systemau yn cael eu hymchwilio, bod problemau'n cael eu datrys a bod gwersi'n cael eu dysgu.²³ Rhaid i chi baratoi adroddiadau yn unol â gweithdrefnau llywodraethu clinigol lleol eich cyflogwr neu'ch corff contractio.²⁵
- 87** Rhaid i chi ddefnyddio Cynllun y Cerdyn Melyn²⁶ i hysbysu MHRA ynghylch:
- a adweithiau niweidiol amheus difrifol i feddyginiaeth
 - b pob adwaith i gynhyrchion y maent yn dwyn nod Triongl Du yn BNF ac mewn manau eraill.

88 Rhaid adrodd am ddigwyddiadau niweidiol sy'n cynnwys dyfeisiau meddygol, gan gynnwys y rhai a achosir gan gamgymeriadau dynol, y maent yn peryglu neu y mae ganddynt y potensial i beryglu diogelwch cleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu eraill sydd mewn perygl, i'r swyddog cyswllt dros ddyfeisiau meddygol yn eich sefydliad a'r corff cenedlaethol perthnasol:

- a yng Nghymru a Lloegr – [adrodd am ddigwyddiadau niweidiol MHRA](#).
- b yng Ngogledd Iwerddon – [Canolfan Digwyddiadau Niweidiol Gogledd Iwerddon](#).
- c yn yr Alban – [adrodd am ddigwyddiadau ar-lein Cyfleusterau Iechyd Yr Alban](#).

89 Dylech ddarparu gwybodaeth i gleifion ynghylch sut y mae modd iddynt adrodd am sgîl-ffeithiau amheus i MHRA yn uniongyrchol.

90 Yn ogystal, dylech sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau difrifol ynghylch diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd i'r corff cenedlaethol perthnasol, yn enwedig os na chaiff digwyddiadau o'r fath eu hadrodd mewn ffordd awtomatig trwy gyfrwng trefniadau llywodraethu clinigol lle'r ydych yn gweithio.

- a Yng Nghymru a Lloegr, hon yw'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu.
- b Yng Ngogledd Iwerddon, hwn yw Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCB) Rhanbarthol Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Rhanbarthol Gogledd Iwerddon.
- c Yn yr Alban, hwn yw Healthcare Improvement Scotland.

91 Pan fo hynny'n briodol, dylech adrodd am adweithiau niweidiol perthnasol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion i feddyg teulu y claf, y fferyllfa a gyflenwodd y feddyginiaeth, y swyddog atebol lleol dros gyffuriau a reolir a chynhyrchwyr y meddyginiaethau hefyd.

92 Dylech ymateb i geisiadau gan yr [Uned Ymchwilio Diogelwch Cyffuriau](#) am ddata monitro digwyddiadau presgripsiwn a gwybodaeth ar gyfer astudiaethau ynghylch materion penodol yn ymwneud â diogelwch neu ffarmacowlyadwraeth.

Adolygu meddyginiaethau

93 Os ydych yn presgripsiynu dan drefniant rheolaidd neu unigol, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau addas mewn grym er mwyn gwneud gwaith monitro, adolygu a gwaith dilynol. Dylech ystyried anghenion y cleifion ac unrhyw risgiau sy'n deillio o'r meddyginiaethau.

94 Pan fyddwch yn adolygu meddyginiaethau claf, dylech ailasesu eu hangen am unrhyw feddyginiaethau didrwydded (gweler paragraffau 95 i 98) y gallent fod yn eu cymryd, er enghraifft, cyffuriau gwrthseicotig a ddefnyddir er mwyn trin symptomau seicolegol ac ymddygiadol ymhlith cleifion y mae ganddynt ddementia.

95 Bydd adolygu meddyginiaethau yn arbennig o bwysig:

- a pan allai cleifion fod mewn perygl, er enghraifft, y rhai sy'n eiddil neu y maent yn dioddef sawl salwch
- b pan fydd gan feddyginiaethau sgîl-ffeithiau cyffredin neu y gallent fod yn ddifrifol
- c pan roddir presgripsiwn am feddyginiaeth a reolir neu feddyginiaeth arall i glaf, y mae'n gyffredin iddi gael ei chamddefnyddio
- d pan fo BNF neu ganllawiau clinigol awdurdodol eraill yn argymhell y dylid cynnal profion gwaed neu weithgarwch monitro arall yn rheolaidd.

- 96** Gall fferyllwyr helpu i wella diogelwch, effeithiolrwydd ac ymlyniad o ran defnydd meddyginiaethau, er enghraifft, trwy gynghori cleifion ynghylch eu meddyginiaethau a thrwy gynnal adolygiadau o feddyginiaethau. Nid yw hyn yn disodli eich dyletswydd chi i sicrhau eich bod yn presgripsiynu ac yn rheoli meddyginiaethau mewn ffordd briodol.
- 97** Dylech ystyried a chymryd camau priodol ynghylch gwybodaeth a chynghor gan fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill y maent wedi adolygu defnydd cleifion o feddyginiaethau. Mae hyn yn arbennig o wir os gwelir newidiadau i feddyginiaethau claf neu os byddant yn adrodd am broblemau gyda goddefiad, sgîl-effeithiau neu ynghylch cymryd meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd.

Presgripsiynu rheolaidd a phresgripsiynu dro ar ôl tro

- 98** Rydych chi yn gyfrifol am unrhyw bresgripsiwn y byddwch yn ei lofnodi, gan gynnwys presgripsiynau rheolaidd ar gyfer meddyginiaethau a roddwyd gan gydweithwyr y tro cyntaf, felly bydd yn rhaid i chi sicrhau bod unrhyw bresgripsiwn rheolaidd y byddwch yn ei lofnodi yn ddiogel ac yn briodol. Dylech ystyried manteision presgripsiynu dro ar ôl tro, a phan fo modd, lleihau gweithgarwch presgripsiynu rheolaidd.
- 99** Yn yr un modd ag unrhyw bresgripsiwn, dylech gytuno gyda'r claf pa feddyginiaethau y maent yn briodol a sut y bydd eu cyflwr yn cael ei reoli, gan gynnwys dyddiad er mwyn eu hadolygu. Dylech nodi mewn ffordd eglur pam bod adolygiadau rheolaidd yn bwysig, gan esbonio i'r claf yr hyn y dylent ei wneud:
- a** os byddant yn dioddef sgîl-effeithiau neu adweithiau niweidiol
 - b** os byddant yn stopio cymryd y meddyginiaethau cyn y dyddiad adolygu y cytunwyd arno, neu cyn y rhoddir nifer benodedig o bresgripsiynau rheolaidd.

Rhaid i chi baratoi cofnodion eglur o'r trafodaethau hyn a'ch rhesymau dros roi presgripsiwn rheolaidd.²⁷

- 100** Rhaid i chi deimlo'n fodlon bod gweithdrefnau er mwyn presgripsiynu dro ar ôl tro ac er mwyn rhoi presgripsiynau rheolaidd yn ddiogel a:
- a** bod y claf cywir yn cael y presgripsiwn cywir
 - b** bod y dos cywir yn cael ei bresgripsiynu, yn enwedig ar gyfer cleifion y mae eu dos yn amrywio yn ystod y driniaeth
 - c** bod cyflwr y claf yn cael ei fonitro, gan ystyried faint o'r feddyginiaeth a ddefnyddir a'i heffeithiau
 - d** dim ond staff y maent yn gymwys i wneud hynny fydd yn paratoi presgripsiynau rheolaidd i'w hawdurdodi
 - e** bod cleifion y mae angen eu harchwilio neu eu hasesu ymhellach yn cael eu hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol
 - f** bod unrhyw newidiadau i feddyginiaethau'r claf yn cael eu hadolygu mewn ffordd ddifrifol a'u cynnwys yn eu cofnod yn gyflym.
- 101** Yn ystod pob adolygiad, dylech gadarnhau bod y claf yn cymryd eu meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd, gan gadarnhau bod angen y meddyginiaethau o hyd, eu bod yn effeithiol ac yn cael eu goddef. Gallai hyn fod yn yr ysbyty neu wrth wneud newidiadau i feddyginiaethau yn dilyn ymweliad gyda'r ysbyty neu'r cartref. Yn ogystal, dylech ystyried a allai ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd a gyflwynir yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl ddynodi ymlyniad gwael, gan arwain at therapi annigonol neu effeithiau niweidiol.
- 102** Pan fyddwch yn rhoi presgripsiynau rheolaidd neu'n presgripsiynu dro ar ôl tro, dylech sicrhau bod gweithdrefnau mewn grym er mwyn monitro a yw'r feddyginiaeth yn ddiogel ac yn angenrheidiol ar gyfer y claf o hyd. Dylech gadw cofnod o fferyllwyr y maent yn meddu ar bresgripsiynau rhoi rheolaidd gwreiddiol, fel bod modd i chi gysylltu â nhw yn ôl yr angen.

Presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded

103 Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y term

'meddyginiaeth ddidrwydded' er mwyn disgrifio meddyginiaethau a ddefnyddir y tu allan i amodau eu trwydded yn y DU, neu nad ydynt wedi sicrhau trwydded er mwyn eu defnyddio yn y DU.²⁸ Mae'n gyffredin i feddyginiaethau didrwydded gael eu defnyddio mewn rhai meysydd meddygol megis pediatreg, seiciatreg a gofal lliniarol. Yn ogystal, fe'u defnyddir mewn meysydd meddygol eraill yn llai aml.

104 Fel arfer, dylech bresgripsiynu meddyginiaethau trwyddedig yn unol ag amodau eu trwydded.

Fodd bynnag, gallwch bresgripsiynu meddyginiaethau didrwydded pan fyddwch yn dod i'r casgliad bod angen gwneud hynny am resymau meddygol, ar sail asesiad o'r claf, er mwyn bodloni anghenion penodol y claf.

105 Efallai y bydd angen presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded yn yr achosion canlynol.

- a** Nid oes meddyginiaeth drwyddedig addas a fydd yn diwallu anghenion y claf. Mae enghreifftiau'n cynnwys - ond heb fod yn gyfyngedig i:²⁹
 - i** pan na cheir meddyginiaeth drwyddedig sy'n berthnasol i'r claf penodol, er enghraifft, os yw'r claf yn blentyn ac os byddai meddyginiaeth wedi'i thrwyddedu ar gyfer cleifion y maent yn oedolion yn unig, yn bodloni anghenion y plentyn
 - ii** pan na fyddai meddyginiaeth y mae wedi cael ei thrwyddedu i drin cyflwr neu symptom ymhlith plant yn bodloni'r anghenion penodol a aseswyd ar gyfer y claf penodol y maent yn blentyn, ond byddai meddyginiaeth y mae wedi cael ei thrwyddedu ar gyfer yr un cyflwr neu symptom ymhlith oedolion yn gwneud hynny

- iii** pan na fyddai'r dos penodedig ar gyfer meddyginiaeth drwyddedig yn bodloni angen y claf

- iv** pan fo angen meddyginiaeth mewn fformiwleiddiad ar y claf, nad yw wedi cael ei nodi mewn trwydded berthnasol.

- b** Pan na fydd meddyginiaeth drwyddedig addas a fyddai'n bodloni angen y claf, ar gael. Gallai hyn godi, er enghraifft, pan geir prinder dros dro o ran y cyflenwad.

- c** Pan fo'r gweithgarwch presgripsiynu yn rhan o brosiect ymchwil a gymeradwywyd mewn ffordd gywir.

- d** Ceir risg difrifol i iechyd y cyhoedd ac mae MHRA wedi awdurdodi'r cam o werthu neu gyflenwi meddyginiaeth didrwydded am y tro, megis brechlyn neu driniaeth, er mwyn ymateb i hynny.³⁰

106 Wrth bresgripsiynu meddyginiaeth ddidrwydded, rhaid i chi:

- a** deimlo'n fodlon bod tystiolaeth neu brofiad digonol yn bodoli o weithgarwch defnyddio'r feddyginiaeth er mwyn dangos ei diogelwch a'i heffeithiolrwydd
- b** cymryd cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'r feddyginiaeth a thros oruchwylio gofal y claf, eu trefniadau monitro ac unrhyw driniaeth ddilynol, neu sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i feddyg addas arall wneud hynny
- c** cadw cofnod eglur, manwl a darllenadwy o'r holl feddyginiaethau a bresgripsiynir a phan na fyddwch yn dilyn arfer cyffredin, eich rhesymau dros bresgripsiynu meddyginiaeth ddidrwydded.

Gwybodaeth i gleifion am y drwydded ar gyfer eu meddyginiaethau

- 107** Rhaid i chi roi gwybodaeth ddigonol i gleifion, neu eu rhieni neu eu gofawyr, ynghylch y meddyginiaethau yr ydych yn bwriadu eu presgripsiynu, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.
- 108** Defnyddir rhai meddyginiaethau y tu hwnt i amodau eu trwydded yn rheolaidd, er enghraifft, wrth drin plant. Mewn argyfyngau neu pan na fydd triniaeth amgen realistig yn bodoli, a phan fo gwybodaeth o'r fath yn debygol o beri gofid, efallai na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol tynnu sylw at y drwydded. Mewn achosion eraill, lle y caiff presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded ei gefnogi gan ganllawiau clinigol awdurdodol, efallai y bydd yn ddigonol rhoi disgrifiad cyffredinol o'r rheswm dros y ffaith nad yw'r feddyginiaeth yn drwyddedig ar gyfer y defnydd arfaethedig neu boblogaeth y cleifion.³¹ Rhaid i chi wastad ateb cwestiynau a ofynnir gan gleifion, neu eu rhieni neu eu gofawyr, ynghylch meddyginiaethau mewn ffordd lawn a gonest.
- 109** Os ydych yn bwriadu presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded mewn achosion anghyffredin neu pan fo dewisiadau trwyddedig amgen addas ar gael, dylech esbonio hyn i'r claf, ynghyd â'ch rhesymau dros wneud hynny.

Meddygaeth chwaraeon

- 110** Ni ddylech bresgripsiynu neu gynllwynio i ddarparu meddyginiaethau neu driniaeth gyda'r bwriad o wella perfformiad unigolyn mewn chwaraeon mewn ffordd amhriodol. Nid yw hyn yn eithrio darparu unrhyw ofal neu driniaeth gyda'r bwriad o ddiogelu neu wella iechyd y claf.

Ôl-nodion

- 1 'Arfer meddygol da' (2013) Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol
- 2 'Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch' (2012) Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol
- 3 Mae modd defnyddio gwasanaethau presgripsiynu electronig hefyd. Yn Lloegr, mae modd anfon presgripsiynau i fferyllfa. Yng Nghymru a'r Alban, cedwir gwybodaeth mewn cod bar ar bresgripsiwn papur. Am ragor o fanylion, gweler '[Get Started with EPS](#)', Health and social Care information Centre; '[Prescriptions electronically](#)', Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru; '[Electronic Transfer of Prescriptions \(ETP\)](#)', Llywodraeth yr Alban. Efallai y cyflwynir gwasanaethau presgripsiynu electronig yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol hefyd. Gellir cyflwyno gwasanaethau rhagnodi electronig yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol.
- 4 Gweler [Clinical Indications](#).
- 5 Gweler yr arweiniad esboniadol ynghylch '[Dirprwyo a chyfeirio](#)' (2013). Yn ogystal, gweler '[Supply and administration of Botox®, Vistabel®, Dysport® and other injectable medicines in cosmetic procedures](#)', Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.
- 6 Gweler Pennod 14 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 Rhif 1916 – SI 2012/1916 a '[The Blue Guide: Advertising and Promotion of Medicines in the UK](#)' (MHRA, 3ydd rhifyn, 2il ddiwygiad, Gorffennaf 2019). Mae MHRA yn Asiantaeth o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd â chyfrifoldeb rheoliadol dros feddyginiaethau (at ddefnydd dynol), gwaed a dyfeisiau meddygol yn y DU.
- 7 Adroddiad dirnadaeth '[The doctor will zoom you now: getting the most out of the virtual health and care experience](#)', Gorffennaf 2020, Healthwatch, Traverse, National Voices.

- 8 Mae ein [canolfan foesegol](#) yn cynnwys adnoddau ynghylch gweithredu ein harweiniad mewn sefyllfaoedd go iawn, er mwyn eich helpu i benderfynu a yw ymgynghoriadau wyneb yn wyneb neu o bell yn briodol mewn sefyllfaoedd eraill.
- 9 Mewn rhai amgylchiadau, megis darparu gwasanaethau iechyd rhywiol, gallai pryderon ynghylch preifatrwydd fod yn drech na'r angen i rannu gwybodaeth.
- 10 'Gwneud penderfyniadau a chaniatâd' (2020) Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol
- 11 '0–18: arweiniad i bob meddyg' (2018) Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol
- 12 [Dewisiadau GIG](#) a gwybodaeth sy'n cynnwys marc ansawdd Y Safon Gwybodaeth er enghraifft. Yn ogystal, gweler y [compendiwm meddyginiaethau electronig](#).
- 13 Mae cysyniad budd cyffredinol yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol i ystyried a yw triniaeth yn cynnig 'budd' i glaf (Yr Alban), neu a yw er 'budd pennaf' y claf (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Cyngor Meddygol Cyffredinol (2020) 'Gwneud penderfyniadau a chaniatâd' Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol (paragraff 87).

Yn ogystal, gweler 'Cyfrinachedd: Arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion' (paragraffau 44 i 49).
- 14 Mae gwefan [NICE](#) yn cynnwys gwybodaeth, arweiniad ac offerynnau er mwyn deall a gwella ymlyniad. Yn ogystal, gweler [guideline on medicines adherence NICE](#).
- 15 Gweler '[Keeping patients safe when they transfer between care providers – getting the medicines right](#)' (2011) Cymdeithas Fferyllol Frenhinol.
- 16 [Canllaw NICE ynghylch Optimeiddio Meddyginiaethau](#) yn darparu argymhellion perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â chysoni meddyginiaethau.
- 17 Gweler diweddariad diogelwch cyffuriau MHRA ynghylch [opioidau a risg dibyniaeth a chaethiwed](#).
- 18 Mae arweiniad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ynghylch [darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd](#) (Ebrill 2019) yn cynnig enghreifftiau o feddyginiaethau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys: opiadau, tawelyddion, moddion gweithio, pregabalin, gabapentin.
- 19 Gweler '[The use of antipsychotic medication for people with dementia: Time for action](#)' (Adran Iechyd, 2009), a [chanllaw NICE ynghylch dementia](#). Mae gwefan [NICE](#) a'r ddogfen a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Sefydliad GIG a Dementia Action Alliance sef '[Call to action: the use of antipsychotic drugs for people with dementia](#)' yn cynnwys canllawiau, astudiaethau achos a deunyddiau eraill hefyd er mwyn cynorthwyo arfer da wrth bresgripsiynu, ynghyd â strategaethau gofal amgen ar gyfer cleifion y mae ganddynt ddementia.
- 20 Am wybodaeth bellach, gweler [arweiniad CFC ynghylch darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd](#) (Ebrill 2019). Mae Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) yn cynnig arweiniad i fferyllfeydd yng Ngogledd Iwerddon.
- 21 I gael mwy o wybodaeth am ragnodi gofal a rennir gweler yr adnoddau a gyhoeddwyd gan [NHS England](#), [Welsh Medicines Information Centre](#), [NHS Scotland health boards](#) and [Health and Social Care in Northern Ireland](#).
- 22 Gweler [astudiaeth EQUIP \(Errors – Questioning Undergraduate Impact on Prescribing\)](#) ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb dros ysgrifennu crynodebau rhyddhau mewn ffordd amhriodol i staff iau sydd heb gael hyfforddiant ffarmacoleg digonol neu nad ydynt yn meddu ar wybodaeth o gleifion.
- 23 'Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch' (2012) Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol.

- 24 Mae GIG Digidol wedi cyhoeddi '[The Identity and Verification standard for Digital Health and Care Services](#)' (2018). I ddarparwyr gofal sylfaenol, gweler yr arweiniad a gyhoeddwyd gan GIG Lloegr a Thîm Gofal Sylfaenol Digidol yn Gyntaf Gwella GIG. Am arweiniad ynghylch darpariaeth ddiogel a phriodol gwasanaethau iechyd rhywiol ar-lein ac o bell, trowch at y Gyfadran Iechyd Rhywiol Atgenhedlu (FRSH) a Chymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH), [Standards for Online and Remote Providers of Sexual and Reproductive Health Services](#).
- 25 Dylech sicrhau bod y wybodaeth yn ddiennw neu dylech godio'r wybodaeth, neu geisio caniatâd, os yw hynny'n ymarferol. Os bydd angen, gweler ein harweiniad esboniadol '[Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion](#)' (2017) am ragor o gyngor.
- 26 Rhaid i chi sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau peryglus yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â 'Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus' 1995. Rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau lleol er mwyn adrodd am faterion tebyg a dysgu oddi wrthynt.
- 27 Mae [MHRA](#) yn casglu data ynghylch meddyginiaethau trwyddedig a didrwydded a ddarparir trwy bresgripsiwn, meddyginiaethau fferyllol a meddyginiaethau dros y cownter.
- 28 Mae canllawiau MHRA ar gyflenwad a defnydd cyfreithiol meddyginiaethau heb eu trwyddedu wedi'u gosod yng nghyhoeddiad MHRA, 'The supply of unlicensed medicinal products ("specials")', [MHRA Guidance Note 14](#).
- 29 Ni allwn ragweld pob achos lle y gallai fod angen presgripsiynu meddyginiaeth heb ei thrwyddedu i ddiwallu anghenion asesedig claf. Os oes gennych chi unrhyw amheuan, ymgynghorwch ag [MHRA](#) neu gofynnwch am gyngor cyfreithiol.
- 30 Mae rheoliad 174 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 yn caniatáu i MHRA (yr awdurdod trwyddedu) ganiatáu awdurdodiad dros dros i gyflenwi cynnyrch meddyginiaethol didrwydded i'w ddefnyddio wrth ymateb i fathau penodol o fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys achosion wedi'u cadarnhau neu amheuan am ledaeniad cyfryngau pathogenaidd, gwenwynau, cyfryngau cemegol neu ymbelydredd niwclear.
- 31 Gallai'r [taflenni Meddyginiaethau i Blant](#) ynghylch meddyginiaethau didrwydded, a gynhyrchwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg a Phwyllgor Sefydlog Grŵp Fferyllwyr Pediatreg ac Iechyd Plant/Babanod newyddenedigol fod o gymorth wrth esbonio i blant a rhieni pam bod arfer o'r fath yn gyffredin wrth ofalu am blant. Mae Cymdeithas Poen Prydain yn cyhoeddi '[Using medicines beyond licence: Information for patients](#)'.